IS-DDEDDFWRIAETH CYMRU

# NOSC 2026 Rhif 67

# TRAFFIG FFYRDD

## Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cyfnewidfa Hirwaun, Hirwaun, Rhondda Cynon Taf i Gyfnewidfa Dowlais, Dowlais, Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful) (Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *27 Mawrth 2026* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A465, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cyfnewidfa Hirwaun, Hirwaun, Rhondda Cynon Taf i Gyfnewidfa Dowlais, Dowlais, Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful) (Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2026 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2026.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH SUBORDINATE LEGISLATION

# NWSI 2026 No. 67

# ROAD TRAFFIC

## The A465 Trunk Road (Hirwaun Interchange, Hirwaun, Rhondda Cynon Taf to Dowlais Interchange, Dowlais, Merthyr Tydfil County Borough) (Temporary Traffic Prohibitions) Order 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *27 March 2026* |
| *Coming into force* | *1 April 2026* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant lengths of the A465 trunk road, are satisfied that traffic on a specified lengths of the trunk road should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the A465 Trunk Road (Hirwaun Interchange, Hirwaun, Rhondda Cynon Taf to Dowlais Interchange, Dowlais, Merthyr Tydfil County Borough) (Temporary Traffic Prohibitions) Order 2026 and this Order comes into force on 1 April 2026.

### Interpretation

**2.** In this Order—

(**1**) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 00:01 o’r gloch ar 1 Ebrill 2026 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A465 Castell-nedd i’r Fenni, rhwng Cyfnewidfa Hirwaun, Hirwaun, Rhondda Cynon Taf a Gyfnewidfa Dowlais, Dowlais, Merthyr Tudful gan gynnwys y ffyrdd ymuno ac ymadael.

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**6.** Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 27 Mawrth 2026

*Nicci Hunter*
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A465 Neath to Abergavenny Trunk Road, between Hirwaun Interchange, Hirwaun, Rhondda Cynon Taf and Dowlais Interchange, Dowlais, Merthyr Tydfil including the entry and exit slip roads;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 00:01 hours on 1 April 2026 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

**Prohibitions**

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

**4.** No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

**5.** No pedestrian may, during the works period, proceed on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order..

**Application**

**6.** The prohibitions in articles 3, 4, and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**7.**The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 27 March 2026

*Nicci Hunter*
Transport
Welsh Government

## ATODLEN
### Gwahardd cerbydau, beicwyr a cherddwyr dros dro

Y darnau cyfan o'r gerbytffordd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin gan gynnwys y ffyrdd ymuno ac ymadael wrth Gyfnewidfa Hirwaun Rhondda Cynon Taf, Cyfnewidfa Croesbychan Rhondda Cynon Taf, Cyfnewidfa Baverstock Merthyr Tudful, Cyfnewidfa Nant Ffrwd Merthyr Tudful, Cyfnewidfa Tywysog Siarl, Merthyr Tudful, a Chyfnewidfa Dowlais, Merthyr Tudful.

## SCHEDULE
### Temporary prohibition of vehicles, cyclists and pedestrians

The entire lengths of the eastbound and westbound carriageway including the entry and exit slip roads at Hirwaun Interchange, Rhondda Cynon Taf, Croesbychan Interchange, Rhondda Cynon Taf, Baverstock Interchange, Merthyr Tydfil, Nant Ffrwd Interchange, Merthyr Tydfil, Prince Charles Interchange, Merthyr Tydfil, and Dowlais Interchange, Merthyr Tydfil.